

GWEDDI EWCHARISTAIDD 2

Yr Arglwydd a fo gyda chwi -
A chyda thithau.

Dyrchafwn ein calonnau -
Yr ydym wedi'u dyrchafu at yr Arglwydd.

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw -
Addas a chyfiawn ydyw.

Rhaglith

Gwir addas a chyfiawn,
 ie, ein dyletswydd a'n hiachawdwriaeth yw
 bob amser ac ym mhob lle roddi diolch i ti,
 Dad sanctaidd, drwy Iesu Grist, dy annwyl Fab:



Oherwydd ef yw dy Air byw, y gwnaethost bopeth drwyddo,
 ef yw'r hwn a anfonaist yn Waredwr i ni ac yn Geidwad;
 fe ddaeth yn ddyn drwy'r Ysbryd Glân a'i eni o Fair Forwyn;

Yntau, wrth gyflawni dy ewyllys di
 a pharatoi i ti bobl sanctaidd,
 a ledodd ei ddwylo mewn dioddefaint
 i ddatod rhwymau marwolaeth
 ac arddangos goruchafiaeth yr atgyfodiad.

Ninnau, gan hynny, gyda'r angyllion a'r holl saint,
 cyhoeddwn dy ogoniant gan ddweud ag un llais:

**Sanctaidd, Sanctaidd, Sanctaidd,
 Arglwydd Dduw'r lluoedd.
 Mae'r nef a daear yn llawn o'th ogoniant.
 Hosanna yn y goruchaf.
 Bendigedig yw'r hwn sy'n dod yn enw'r Arglwydd.
 Hosanna yn y goruchaf.**

Sanctaidd wyt, Arglwydd, ffynnon pob sancteiddrwydd.

Holl Offeiriad

Sancteiddia di, gan hynny,
y rhoddion hyn â gwlyth dy Ysbryd Glân,
a'u troi i ni yn gorff ✠ a gwaed ein Harglwydd Iesu Grist.



Ac yntau'n ei roddi ei hun o'i wirfodd i ddiodef,
fe gymerodd fara,
a chan ddiolch fe'i torrodd a'i roddi i'w ddisgyblion gan ddweud:



**CYMERWCH, BWYTEWCH OHONO BAWB:
HWN YW FY NGHORFF A RODDIR DROSOCH.**



Yr un modd, wedi bwyta,
cymerodd y cwpan rhagorol hwn yn ei ddwylo sanctaidd,
a chan ddiolch i ti a bendithio drachefn,
fe'i rhoddodd i'w ddisgyblion, gan ddweud:



**CYMERWCH, YFWCH OHONO BAWB:
HWN YW CWPAN FY NGWAED
O'R CYFAMOD NEWYDD A THRAGWYDDOL,
A DYWELLTIR DROSOCH CHWI A THROS BAWB
ER MADDEUANT PECHODAU.**



GWNEWCH HYN ER COF AMDANAF.

Dyma ddirgelwch y Ffydd:

**1 Cyhoeddwn dy farwolaeth, Arglwydd,
addefwn dy atgyfodiad nes i ti ddod.**



Neu:

**2 Bob tro y bwytawn y bara hwn ac yfed y cwpan,
cyhoeddwn dy farwolaeth, Arglwydd, nes i ti ddod.**

Neu:

**3 Iachawdwr y byd, iachâ ni;
trwy dy groes a'th atgyfodiad, yr wyt wedi ein rhyddhau.**

Am hynny, Arglwydd Dad,
 gan goffáu ei farwolaeth a'i atgyfodiad ef,
 yr ydym yn offrymu i ti fara'r bywyd a chwpan iachawdwriaeth,
 gan ddiolch i ti am weld yn dda
 ein galw ni a'n derbyn i sefyll yn weision ger dy fron.



Ac yr ydym yn gofyn yn ostyngedig i ti beri i ni,
 wrth gyfranogi o gorff a gwaed Crist,
 gael gan yr Ysbryd Glân ein cydgynnull oll yn un.

- ① Ystyria dy Eglwys, Arglwydd, ar hyd a lled y byd,
 ac ynghyd â'n Pab **E.**, a'n hesgob **E.**,
 a'th holl weision, perffeithia hi mewn cariad.



Mewn Offerennau dros y Meirw gellir ategu'r canlynol:

Cofia dy was **E.**, a elwaist (heddiw) atat ti o'r byd hwn.



Dyro iddo ac yntau wedi ei uno trwy fedydd a marwolaeth dy Fab,
 ddod yn un hefyd a'i atgyfodiad.

Cofia dy lawforwyn **E.**, a elwaist (heddiw) atat ti o'r byd hwn.



Dyro iddi a hithau wedi ei huno trwy fedydd a marwolaeth dy Fab,
 ddod yn un hefyd a'i atgyfodiad.

- ② Cofia hefyd ein brodyr a'n chwirydd
 sydd wedi huno mewn gobaith am yr atgyfodiad
 a phawb sydd wedi ymadael a'r bywyd hwn,
 ac arwain hwy i oleuni dy ogoniant.



Tosturia wrthym ninnau bawb,
 a chyda Mair Forwyn fendigaid, Mam Duw,
 y bendigaid Joseff hefyd, ei phriod,
 a'r apostolion bendigaid ynghyd â'r holl saint
 a fu o'r dechreuad wrth dy fodd,
 dyro i ni fod yn gyfrannog o gymdeithas y bywyd tragwyddol,
 a'th glodfori di drwy Iesu Grist dy Fab.



TRWY - DDO EF A CHYDAG EF, AC__ YN - DDO EF,
 Y MAE I TI, DDUW DAD HOLLALLUOG, YN UNOD YR YS BRYD GLÂN
 BOB ANRHYDEDD A GO-GO-NI-ANT YN__ OES__ OES -OEDD.

Prif off. neu bawb Trwyddo ef, a chydag ef, ac ynddo ef,
 y mae i ti, Dduw Dad Hollalluog,
 yn undod yr Ysbryd Glân,
 bob anrhydedd a gogoniant yn oes oesoedd.

Amen.

R. A-men.